**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd

**Cyfarfod Aml-leoliad – Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/MS Teams**

**Dydd Iau, 14 Rhagfyr 2023 am 2.00pm**

| | | |
|---|---|---|
| **Yn bresennol:** | Y Cynghorydd P Downing (Cadeirydd) fu'n llywyddu | |
| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
| W G Lewis | P Lloyd | N L Matthews |
| T M White | | |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Sally-Ann Evans | Cyfreithiwr Arweiniol |
| Phil Holmes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Clare James | Rheolwr Datblygu Economaidd |
| Lisa Jones | Cyfreithiwr Cyswllt |
| Samantha Woon | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |

**Hefyd yn bresennol**
Y Cynghorydd R Francis-Davies - Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): S J Rice a W G Thomas

---

## 22 Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 23 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2023 fel cofnod cywir.

## 24 Cynllun Cyflawni Economaidd Lleol

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu Economaidd Cynllun Cyflawni Economaidd Lleol (CCELl) newydd ar gyfer Abertawe.

Cyfeiriodd at y diweddariad a ddarparwyd i'r Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd ar 20 Gorffennaf 2023 a dywedodd fod y cynllun wedi cael ei gynhyrchu i nodi'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu ar gyfer adfywio economaidd yn Abertawe. Mae'r Cynllun Cyflawni Economaidd Lleol yn ategu at y Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol, sy'n cynnwys Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe a bydd yn arwain rhoi'r Cynllun Cyflawni Economaidd Rhanbarthol ar waith mewn cyd-destun lleol.

Nododd aelodau'r fframwaith strategol a oedd yn nodi ein cenadaethau lleol a'n nodau a'n amcanion strategol hyd at 2030 a'r cynllun gweithredu cysylltiedig.

Cyfeiriodd Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth at y gwaith a wnaed wrth ddatblygu'r cynllun a rhoddodd ddiolch i bawb a fu'n rhan o'r gwaith.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Rheolwr Datblygu Economaidd am ddiweddariad llawn gwybodaeth.

**Penderfynwyd:**

1) Nodi'r cynnydd wrth gynhyrchu'r Cynllun Cyflawni Economaidd Lleol.

## 25 Cynllun Gwaith

Cyflwynodd y Cadeirydd Gynllun Gwaith Pwyllgor Trawsnewid Gwasanaethau'r Economi ac Isadeiledd 'er gwybodaeth' ar gyfer 2023-2024.

Nodwyd y pynciau i'w trafod yn y cyfarfod dilynol:

- 18 Ionawr 2024

  Cynnal a chadw'r isadeiledd ffyrdd

Daeth y cyfarfod i ben am 2.17pm

**Cadeirydd**